Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru

WcVA
CgGC

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Welsh Government's Wales and Africa Grant Scheme

# Dyfarniadau Grant Cymru ac Affrica 2025-26
# Dyfarniadau Cylch 1

| Enw’r mudiad | Disgrifiad 50 gair | Thema | Gwlad Affricanaidd | Sir yng Nghymru | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Bydd y cyllid yn talu am ymchwil ar nodweddion genetig mosgitos i helpu i reoli malaria cyson yn Zambia. Bydd grŵp o Brifysgol Aberystwyth yn cyflwyno hyfforddiant i gydweithwyr o Zambia ar ddulliau moleciwlaidd i’w astudio’n barhaus a byddant yn derbyn hyfforddiant mewn dulliau cadw golwg ar fectorau y gellir eu rhoi ar waith yng Nghymru i reoli bygythiadau milheintiol sy’n dod i’r golwg. | Iechyd | Zambia | Sir Gaerfyrddin<br>Ceredigion<br>Gwynedd<br>Powys | £24,939.06 |
| Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Byddwn yn cyflwyno addysg ar anaesthesia adrannol a chyffredinol a gweithdrefnau llawdriniaethol penodol drwy gyrsiau wyneb yn wyneb ac addysgu o bell. Byddwn yn prynu darnau allweddol o offer a deunyddiau traul os bydd angen i hwyluso’r hyfforddiant a darparu anaesthesia a llawdriniaethau diogel. | Iechyd | Sierra Leone | Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Gwynedd<br>Ynys Môn<br>Abertawe | £18,124.00 |

| Enw'r mudiad | Disgrifiad 50 gair | Thema | Gwlad Affricanaidd | Sir yng Nghymru | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|---|---|
| Economi Gylchol Canolbarth Cymru | Gan adeiladu ar 17 mlynedd o brofiad rhwng cymunedau Mynydd Elgon yn Uganda a Sir Drefaldwyn yng Nghymru - ac yn fwy diweddar, sefydlu rhwydwaith EcoHyrwyddwr i weithio gyda ffermwyr ymgynhaliol ar achosion ac effeithiau dwfn y newid hinsawdd yn Uganda - bydd y prosiect hwn yn:<br>- Cyflymu a chyfeillio dau rwydwaith eco-ysgol sy'n gweithio ar y newid yn yr hinsawdd.<br>- Dod â chymunedau ynghyd dros ymgyrchoedd uwchgylchu a chynhyrchu bwyd ar y cyd<br>- Cynyddu rhaglenni radio galw i mewn i ffermwyr, sy'n cyflwyno ffermwyr Sir Drefaldwyn i ffermwyr yn Uganda.<br><br>Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn llunio llywodraethiant hirdymor ac yn sicrhau cyllid mwy sefydlog i gynyddu dysgu ar y cyd sy'n pontio'r cenedlaethau a'r cyfandiroedd. | Y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd | Uganda | Powys | £19,868.00 |

| Enw'r mudiad | Disgrifiad 50 gair | Thema | Gwlad Affricanaidd | Sir yng Nghymru | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|---|---|
| EMPOWER Soap Solutions | Mae Empower Soar Solutions yn partneru â Kibos School for the Blind, NatureNurture.education (Cwmni Buddiannau Cymunol (CBC) – braich Eco Hyb Caerffili) a CEMPOP (Model Menter Gymunedol ar gyfer Cynhyrchu Olew Planhigion) i redeg gweithdai gwneud sebon sy'n gwella glanweithdra ac yn adeiladu sgiliau bywyd. Gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy, bydd myfyrwyr yn creu sebon at ddefnydd personol ac i'w werthu, gan godi arian addysgol hanfodol. Mae'r prosiect hefyd yn meithrin cysylltiadau rhwng ysgol yng Nghymru ac ysgol yn Kenya, drwy weithdai a chyfnewid diwylliannol. | Iechyd | Kenya Uganda | Caerffili | £4,009.49 |
| SEF Cymru | Byddwn yn cyflwyno hyfforddiant ar lythrennedd digidol i bobl ifanc yn Somaliland drwy sesiynau a arweinir gan gymheiriaid a thiwtorialau a gynhyrchir ar y cyd gan bobl ifanc o Gymru, a gefnogir gan daith rithwyr a phersonol i Somaliland. Mae'r prosiect yn adeiladu sgiliau TGCh, yn hybu cyflogadwyedd ac yn meithrin dinasyddiaeth fyd-eang drwy gydweithrediad rhwng SEF Cymru a British International College Hargeisa. | Dysgu Gydol Oes | Somalia | Caerdydd | £20,000.00 |

| Enw’r mudiad | Disgrifiad 50 gair | Thema | Gwlad Affricanaidd | Sir yng Nghymru | Dyfarniad grant |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Byddwn yn cynnig addysg a chymorth i ddatblygu triniaeth ar gyfer mwy na 100 o blant sy’n cael eu geni â gwefus a thaflod hollt yn ardaloedd y Llynnoedd yn Tanzania bob blwyddyn. Bydd y bartneriaeth hirdymor hon rhwng timau gwefus hollt amlddisgyblaethol yn gwella iechyd a lles cleifion, teuluoedd a chymunedau a effeithir gan wefusau hollt yn Tanzania a Chymru. | Iechyd | Tanzania | Abertawe | £24,991.00 |
| Swansea Gambia Link | 1. Gweithdai Addysg Clinigol – Bydd myfyrwyr meddygol a meddygon ymgynghorol yn Abertawe yn cyd-ddatblygu a chyflwyno gweithdai hyfforddiant i fyfyrwyr a chlinigwyr yn Gambia.<br>2. Prosiectau Ymchwil ar y cyd – Bydd timau yn Gambia a Chymru yn cynnal tri phrosiect ymchwil, a fydd o fudd i yrfaoedd, disgwyliadau academaidd ac iechyd cyhoeddus<br>3. Lleoliadau clinigol – Galluogi lleoliadau gofal iechyd rhyngwladol i fyfyrwyr yn y ddwy system gofal iechyd. | Dysgu Gydol Oes | Gambia | Abertawe | £10,900.50 |


Gwledydd yn Affrica lle mae gweithgareddau'r prosiect yn cael eu cynnal
Nifer y prosiectau
3
2
1
0
Gambia
Kenya
Sierra Leone
Somalia
Tanzania
Uganda
Zambia


Siroedd yng Nghymru lle mae gweithgareddau'r prosiect yn cael eu cynnal
Caerffili
Caerdydd
Sir Gaerfyrddin
Ceredigion
Conwy
Sir Ddinbych
Gwynedd
Ynys Môn
Powys
Abertawe
1
1
1
1
1
1
2
1
2
3
Nifer y prosiectau

# Gwledydd partner yn Affrica

